Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym mhrif Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Llandeilo ar nos Fawrth 21ain Hydref 2003 am 7.30 pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Maer) (Cadeirydd), Cyng G. Vaughan Jones (Dirprwy Faer), Cyng S. Burge, Cyng K. Day, Cyng G. Price, Cyng C. Jenkins, Cyng C. Cooper, Cyng R. Bellamy, Cyng I. Gwyn.

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref). R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), Sgt Neil Jones (Swyddog yr Heddlu). Aelodau'r Cyhoedd.

5879: Ymddiheuriadau: Cyng Ladd Lewis, Cynghorydd Sir I. Jones.

5880: Materion yr Heddlu. Cyflwynwyd adroddiad gan y Sgt Jones. Mae wedi bod yn gyfnod tawel yn Llandeilo gyda dim ond un enghraifft o ddifrod troseddol i siop ddillad, cafodd y troseddwr ei ddal.

Mae yna gynnydd wedi digwydd o ran gweithgarwch gan yr heddlu yn yr ardal yn dilyn cynnydd mewn byrgleriaeth gwledig. Mae'r heddlu yn gweithredu ar y cyd gyda Heddlu Manceinion.

Mae'r Sarjant wedi anfon swyddog allan i wylio ymddygiad y bobl ifanc sy'n dal y bws heb orfod talu am y siwrnai i'r clwb nos. Dim ond dyrnaid o bobl sy'n ei ddefnyddio, ac nid yw'n ymddangos fod yna broblem.

Roedd yr heddlu wedi derbyn y llythyr am y tân gwyllt gan gynnig mynd yno ar y noson, ac i osod arwyddion ar naill ochr y fynedfa er mwyn arafu traffig.

Roedd yr heddlu o'r farn bod yr yl gerdd a g yl Llandeilo wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roedd y gerddoriaeth yn y tafarndai wedi mynd yn weddol ddidrafferth ac roedd yr heddlu yn barod i'w gefnogi yn y dyfodol.

Diolchodd y Cyng Vaughan Jones i'r Sarjant am yr holl waith y mae'r heddlu yn ei wneud yn y gymuned. Codwyd y mater ynghylch y g yn a dderbyniwyd gan Gyngor y Dref gan un o drigolion y Cilgant mewn perthynas â'r defnydd o'r meinciau gan bobl ifanc gyda'r nos, gan ymddwyn mewn modd amhriodol. Dywedodd y Sarjant fod yr heddlu heb dderbyn unrhyw gwynion gan drigolion y ffordd a mai dim ond canmoliaeth y mae wedi'i glywed gan aelodau'r cyhoedd sy'n mynd i eistedd ar y meinciau a mwynhau'r olygfa. Bydd yr heddlu yn monitro'r sefyllfa gyda'r nos gan annog aelodau'r cyhoedd i gysylltu â hwy mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Mae'r heddlu yn y broses o ddatblygu eu Cynllun Polisi Blynyddol ar gyfer 2004 - 2005. Maent yn dymuno dynodi'r meysydd hynny sydd angen blaenoriaeth a gwella

arnynt. Hoffent agor y materion canlynol i'w trafod : Camdrin Alcohol a Chyffuriau, Anrhefn a Byrgleriaeth. Dywedodd y Cyng Jones ei fod ef o'r farn y byddai'r gymuned yn dymuno gweld mwy o bresenoldeb gan yr heddlu. Cytunodd y Cyng Price a'r Cyng Cooper y byddai'n dda gweld mwy o swyddogion yn cerdded o amgylch y dref. Atebodd y Sgt Jones trwy ddweud eu bod yn cerdded y strydoedd ac er bod yna Orsaf Heddlu yn Llandeilo, maent yn gyfrifol am ardal sydd tua 400 milltir sgwâr, felly mae adnoddau'n brin. Serch hynny roedd yn teimlo'n gryf bod Llandeilo'n cael ei wasanaethu'n dda, a bod yr heddlu yn cerdded o amgylch y dref yn rheolaidd.

Y mater arall yr oedd y Cyngor yn teimlo oedd yn bwysig oedd y mater am y cynnydd mewn byrgleriaeth gwledig. Roedd Cynghorwyr o'r farn ei bod yn bwysig cynnal proffil uchel yn Lleol a Chenedlaethol yn tynnu sylw at Gyfraddau Darganfod Troseddau uchel. Fe fyddai hyn yn gymorth i gadw eraill rhag dod i'r ardal o rannau eraill o'r wlad i droseddu, gan ddisgwyl na fyddent yn cael eu dal.

Yn olaf awgrymodd y Cyng Vaughan Jones yr angen i cynyddu'r cynlluniau 'Neighbourhood Watch' a hefyd i gynyddu a chodi ymwybyddiaeth.

Cyng Jones i lanw'r holiadur ac i anfon llythyr yn codi'r materion hynny y mae'r Cyngor Tref yn teimlo y dylai gael blaenoriaeth.

Cododd y Cyng Jenkins y mater ynghylch y ganolfan alwadau, a'r ffaith na ellir bellach alw eich Gorsaf Heddlu leol. Mae pob galwad yn mynd at ganolfan alwadau. Dywedodd y Sgt Jones fod yna broblemau wedi codi yn y ganolfan alwadau, yn ymwneud â lefelau staffio a lefelau hyfforddiant i weithwyr yn bennaf. Y gobaith yw bod y materion hyn yn cael eu datrys ac y byddai'r gwasanaeth yn gwella.

Diolchodd y Maer ar ran y Cyngor i Sarjant Jones am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

5881: Cofnodion : Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Hydref 2003 i gwrdd â Dyddiad gofynnol yr Archwiliad.

Derbyniwyd Gofnodion o Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 1af Hydref fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Day.

5882: Materion yn Codi: Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i lunio, lofnodi a'i bostio at yr Archwilwyr Allanol. Mae copïau o'r adroddiad llawn wedi'i roi i'r Maer, Cyng Jones a Chadeirydd Cyllid, Cyng Bellamy.

5883: Cofnodion o Gyfarfod Diwethaf o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Dinefwr ar yr 16eg Medi 2003.

Derbyniwyd gofnodion o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Llandeilo ar y 16eg Medi 2003 fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Vaughan Jones, eiliwyd gan y Cyng Gwyn.

5884: Materion yn codi:

5845 Clerc i ddosbarthu'r rhestr o fudiadau'r Dref ar gyfer ychwanegiadau a diweddaru.
5852: Mae'r tân gwyllt wedi'i archebu, a'r posteri wedi'u hargraffu. Clerc i gynhyrchu taenlen incwm/gwariant ar gyfer y Tân Gwyllt.

5855: Gerddi'r Cilgant – delio gyda phrynu'r Alotment. Byddwn yn cael ein bilio am ffioedd yr arolwg gan y Cyngor Sir. Bydd amod yn cael ei rhoi ar y gwerthiant o ran defnyddio'r ardd fel gardd ac nid ar gyfer unrhyw ddibenion eraill. Angen cael golwg ar yr hawl i fynediad.
Yr ardd arall – Hyd yn hyn nid yw Mr Beynon wedi ateb cynnig y Cyngor.

Yr ardd i fod yn eitem ar Agenda Cyfarfod mis Ionawr.

Y Wefan : Cynhaliwyd cyfarfod a chytunwyd ar amserlen. Gwybodaeth at Orchard Web erbyn 7fed Tachwedd, cyfle i ddangos sut mae'r wefan yn gweithio ym mis Rhagfyr, Gwefan i'w lansio ym mis Ionawr.

5885: Cofnodion y Cyfarfodydd Pwyllgor, a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Hydref 2003.

Derbyniwyd Gofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 1af Hydref 2003 fel cofnod cywir o'r cyfarfod, ac mae'r Cyngor yn derbyn yr argymhellion a gynhwysir ynddynt. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Price.

Derbyniwyd Gofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 1af Hydref 2003 fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw, ac mae'r Cyngor yn derbyn yr argymhellion a gynhwysir ynddynt. Cynigiwyd gan y Cyng Day ac eiliwyd gan y Cyng Jenkins.

5886: Côd Ymddygiad: Mae disgwyl i'r Cyngor benderfynu ar ddyddiad ar gyfer sesiwn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad, a gynhelir gan C.S.C.

Clerc i ysgrifennu at Mike Pugh Jones gyda'r cynnig o ddydd Iau 20fed Tachwedd, dydd Mawrth 25ain Tachwedd 2003, dydd Mercher 26ain Tachwedd 2003 fel dyddiadau addas. Bydd y Cyngor yn cynnig y cyfle i Salem/Manordeilo a Dyffryn Cennen i ymuno gyda ni.

5887: Y Diweddaraf ar y Ffordd Liniaru: Mae Andrew Davies AC wedi ymateb i'r llythyron a anfonwyd gan y Maer a'r Cynghorydd Sir I. Jones i ddweud nad oedd o'r farn y byddai dirprwyaeth yn briodol ar hyn o bryd. Serch hynny, roedd yna farn gref o hyd y dylem fod yn gallu cyflwyno ein safbwyntiau dros gael ffordd liniaru a hynny'n uniongyrchol at y rheini a fydd yn gwneud y penderfyniadau. Roedd y Maer a'r Cyng Jones wedi bod yn lobio'r ddau AC (N. Bourne a Rhodri Glyn Thomas) a'r AS (Adam Price AS) a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Cytunwyd y dylem gael cyfle i roi ein achos a'r angen am ffordd liniaru.

5888: Dyfodol yr Hen Neuadd Farchnad. Mewn cyfarfod diweddar o'r Gymdeithas Gymunedol daeth yn amlwg fod y Neuadd Ddinesig a'r Hen Neuadd Farchnad yn cystadlu am yr un nawdd, a'i bod yn ymddangos fod C.S.C. yn cefnogi'r Neuadd Farchnad i dderbyn nawdd. Mae Menter Bro Dinefwr mewn trafodaethau gyda Ceramica mewn perthynas â phrosiect ar y cyd i ddefnyddio'r Hen Neuadd Farchnad, a chyn gynted ag y bydd manylion y bartneriaeth ar gael bydd y wybodaeth yn cael ei roi i'r Cyngor Tref gyda'r bwriad o gynnig partneriaeth bellach i unrhyw gynnig yn y dyfodol.

Mae angen i'r Cyngor Tref fonitro'r sefyllfa hon gan ofyn am gael gwybod manylion am unrhyw gynnydd.

5889: Adroddiadau o Gyfarfodydd a fynychwyd. Roedd y Cyng Jenkins wedi mynychu cyfarfod o'r Gymdeithas Ddinesig sydd eisoes wedi'i drafod. Mae cyfarfod arall o'r Gymdeithas Ddinesig i'w gynnal yn y Neuadd Sirol ar ddydd Iau 30ain Hydref 2003. Roedd y Cyng Jenkins hefyd wedi mynychu cyfarfod o Gymdeithas Tywi Gwili, lle cawsant gyflwyniad gan Ambiwlans Awyr Cymru. Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn gwneud llawer iawn o waith i'r gymuned a wnaethant ddiolch i bob Cyngor Tref a Chymuned am eu rhoddion i'r achos gwerthfawr hwn. Yn ogystal nodwyd gan y Cyng Jenkins bod Cymdeithas Tywi Gwili ei hun o dan drafodaeth ar gyfer ailstrwythuro'r system o Gymdeithasau Cymunedol, gan ddod â'r amrywiol grwpiau bychain yn rhai mwy o faint.

Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn Anfoneb ar gyfer gwaith peintio'r Neuadd Sirol ac wedi dechrau ar y broses o gael dyfnbrisiau ar gyfer y ffenest mawr sydd angen eu newid.

Awgrymwyd y dylai'r Swyddog Technegol hefyd chwilio am ddyfynbrisiau ar gyfer cyflenwi'r ffenest yn unig ac yna dod o hyd i brisiau i'w gosod, oherwydd o bosib fe allai hyn arbed rhywfaint o arian.

5890: Adroddiad y Maer.

17/09/03	Cyfarfod 'Network Rail' – cyfarfod cychwynnol. Cynghorydd Sir Jones i ddilyn hyn gyda thrafodaeth gyda Mr T. Williams.
Pm.	Trafodaeth gyda G. Thomas –Goleuadau Nadolig. Mr Harris ar grantiau Balchder Bro ar gyfer Stryd y Bont – angen datblygu cynllun plannu ar gyfer yr ardal, yna bydd hawl derbyn grant.
19/09/03	Cyfarfod gyda Chlerc y Dref
25/09/03	Cyfarfod gyda Emyr John a'r Clerc – cais am grant
2/10/03	Cyfarfod gyda T. C a Gerwin Thomas – daeth yn amlwg y byddai C.S.C. yn codi swm mawr am oleuadau Nadolig.
7/10/03	Cyfarfod gyda Lisa Bancroft – trafod y Dref a Thwristiaeth a phrosiectau posib a ffynonellau grant. Addewid i ystyried a chynghori
7/10/03	Cyfarfod goleuadau Nadolig yn y Neuadd Sirol.
7/10/03	Cymdeithas Gymunedol mynychwyd gan Dave Roison
10/10/03	Cyfarfod am y Wefan gyda Andrew o Orchard Web.
14/10/03	Cyfarfod ACTT – Y Neuadd Ddinesig yn flaenoriaeth o hyd – dod o hyd i arian a chymeradwyo'r astudiaeth dichonoldeb.
15/10/03	Sgwrs gyda Hywel Richards o bartneriaeth Rees Richards sydd am wneud cyflwyniad i'r cyfarfod parthed datblygiad Pencrug.
20/10/03	Agor Llain Chwarae Ysgol Gymraeg Teilo Sant.

Diolch i'r Chwiorydd Swindell am eu gwaith ar y blodau yn y Blychau Plannu yn yr Orsaf Reilffordd. Mae angen i'r Cyngor Tref weithredu ar y cais i osod tap y tu allan i'r Toiledau yn y Maes Parcio. Clerc i ddosbarthu manylion o ran dwyster tai ar gyfer Llys Pencrug. Sul y Cofio i'w gynnal ar 9/11/03 yn Eglwys Teilo Sant am 10.30.am.

5891: Gohebiaeth – Llythyr oddi wrth Thurza Swindells yn hysbysu'r Cyngor ei bod yn ganmlwyddiant ar Barc Penlan ar y 7fed Ionawr 2008. Mae angen i ni ddechrau ystyried sut i gofnodi'r achlysur a pharatoi'r parc a'r olygfa ar gyfer y digwyddiad. Angen ystyried hwn fel rhan o'r Arolwg Treftadaeth, mae'r parc yn safle amlwg i osod paneli ar gyfer Llwybrau Treftadaeth dilynol.

Clerc i ysgrifennu at C.S.C. sy'n gyfrifol am y parc yn gofyn am gyfarfod safle gyda phawb sydd â diddordeb ynddo i fod yn bresennol.

Teimlwyd nad y Cyngor Tref sy'n gyfrifol am y Llwybr Troed y tu cefn i Teras Tomos. Dywedodd y Cyng Gwyn fod y llwybrau troed wedi'u cofrestru gyda'r hen Gyngor Trefol ond eu bod wedi mynd yn gyfrifoldeb ar Gyngor Bwrdeistref Dinefwr yn 1974. Pan newidiodd y Bwrdeistref yn C.S.C. fe ddylent hwy fod wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Mae angen i'r Cyngor wybod pwy sy'n gyfrifol am ba lwybrau troed.

Clerc i ofyn i C.S.C. am weld y llythyr cwyn gwreiddiol oddi wrth un o drigolion Teras Tomos.

Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o ymddiswyddiad gan y Cyng Ladd Lewis. Mynegodd y Cyngor ei siom wrth glywed am y bwriad hwn i ymddiswyddo.

Clerc i ysgrifennu llythyr at y Cyng Ladd Lewis yn gofyn i'r Cyng Ladd Lewis ailystyried ei benderfyniad i ymddiswyddo.

Cytunwyd ar y geiriau i'w rhoi ar y Plac i'w osod y tu allan i'r Neuadd Sirol, yn hysbysu pobl mai'r Cyngor Tref sy'n berchen yr Adeilad. Bydd yn cael ei gyfieithu a bydd y plac Efydd yn cael ei gomisiynu.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 pm.